

Prifysgol Bangor  
**COFNODION PWYLLGOR IECHYD A DIOGELWCH Y BRIFYSGOL**

**Cyfarfod:** 2 Mehefin 2021

**Presennol:** Yr Athro G Roberts (Cadeirydd), Miss S Barnes, Mr E Hepburn, Mr A Jones, Yr Athro P Mullins, Miss E Riches, Mrs J Roberts, Dr H Roberts, Yr Athro P Spencer, Mr A Williams, Mr M Williams, Mr L Weigand, Mr G W Jones (Ysgrifennydd)

**Ymddiheuriadau:** Dr J Latchford, Dr K Mundy, Mrs R Parry, Mrs T Hibbert, Mr H Riley, Mr H Ellis, Dr G Robinson, Mr W Jones, Mr H Williams, Mr I Evans, Mr G Parry, Ms M Rowlands

**603. Cofnodion**

Cadarnhawyd a llofnodwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 10 Mawrth 2021.

**604. Materion yn Codi**

Caiff unrhyw faterion sy'n codi eu trafod fel eitemau agenda.

**605. Adroddiad gan y Grŵp Tasg Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau**

Mae'r grŵp tasg wedi cyfarfod dair gwaith ers cyfarfod diwethaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch. Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Mae'r gymeradwyaeth gychwynnol ar gyfer gweithgareddau lefel 'risg goch' yn parhau. Mae protocolau wedi'u datblygu fel y gall prosesau a gymeradwywyd unwaith gan y Grŵp Tasg gael eu cymeradwyo bellach ar lefel leol gan y Deon/Pennaeth y Coleg neu'r Pennaeth Gwasanaeth, yn dilyn ymgynghori â'r uned Iechyd a Diogelwch, ar yr amod nad yw'r protocolau wedi newid.
- ii. Mae protocol i alluogi rhannu ceir ar gyfer teithiau hanfodol yn gysylltiedig â gwaith y Brifysgol wedi'i gymeradwyo.
- iii. Ar y dechrau, yn ystod camau cynnar y pandemig, estynnwyd dyddiadau dod i ben tystysgrifau Cymorth Cyntaf. Mae'r estyniad hwn bellach wedi darfod ac erbyn hyn mae problemau gyda threfnu hyfforddiant cymorth cyntaf, gan arwain at dystysgrifau Cymorth Cyntaf annilys. Mae gwaith yn mynd rhagddo i fynd i'r afael â hyn.
- iv. Mae dychweliad staff i'r campws bellach yn eitem sefydlog ar yr agenda. Gan fod cymaint yn dibynnu ar ganllawiau a gofynion deddfwriaethol Llywodraeth Cymru, mae'n dal yn aneglur pa ffurf fyddai i unrhyw dychweliad a pha amserlenni a ragwelir. Mae'r un mor aneglur ar hyn o bryd sut olwg fydd ar bethau ym mis Medi a dechrau blwyddyn academiaidd 21/22 hefyd.
- v. Mae sawl Polisi wedi'u diweddarau (dim newidiadau sylweddol) a'u cymeradwyo ar ran y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch: Pelydr-X, Radon, Ymbelydredd Ioneiddio (Ffynonellau Agored).
- vi. Mae awyru yn thema barhaus yng nghyfarfodydd y Grŵp Tasg, gyda gwaith sylweddol eisoes wedi'i wneud a'i gynllunio cyn y flwyddyn academiaidd nesaf.

- vii. Roedd symud i Lefel Rhybudd 2 Llywodraeth Cymru yn golygu y gellid ail-ddechrau gweithgareddau dan do i hyd at 30 o bobl a gweithgareddau awyr agored i hyd at 50 o bobl. Mae hyn hefyd wedi galluogi Undeb y Myfyrwyr i ddarparu rhai gweithgareddau Clwb a Chymdeithas i fyfyrwyr cyn diwedd y tymor.
- viii. Gan mai cyngor Llywodraeth Cymru yw 'gweithio gartref' lle bynnag y bo modd, nid oes cefnogaeth hyd yma i gynnal cyfarfodydd staff Prifysgol ar y campws os gellir gwneud hynny ar-lein.
- ix. Derbyniwyd ac ystyriwyd dau bapur manwl yn y cyfarfod diwethaf:
  - Dychwelyd i'r Campws: y canllawiau cyfredol yw parhau i weithio gartref lle bo hynny'n bosibl. Ni ddisgwylir cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru ynghylch newidiadau i Lefelau Rhybudd a rheolaethau ynglŷn â'r coronafirws tan yn ddiweddarach ym mis Mehefin neu ddechrau mis Gorffennaf pan obeithir y gellir darparu mwy o eglurder ynghylch staff yn dychwelyd i'r campws.
  - Teithio Rhyngwladol: Mae teithio tramor cyfyngedig wedi'i gymeradwyo ar sail achosion unigol. Ni ellir rhoi caniatâd cyffredinol i aildechrau teithio dramor gan fod teithio yn drafferthus a chymhleth iawn oherwydd y gofynion fesul gwlad sy'n newid yn barhaol, e.e. lefelau risg gwledydd, gofynion profi, cwarantîn, a'r costau ychwanegol sylweddol a ddaw yn sgil hyn.
- x. Mae swyddogaeth y Grŵp Tasg yn cynnwys Rheoli Argyfyngau ac yn hyn o beth mae wedi ystyried dwy weithdrefn sydd wedi eu diweddarau:
  - Gweithdrefnau 'Cyfyngiadau Symud Brys' ar gyfer Adeiladau a Safleoedd
  - Gweithdrefnau a Phrotocolau Marwolaeth Aelod neu Staff

Cafwyd trafodaeth ynghylch profi Gweithdrefnau Cyfyngiadau Symud Brys a **chytunwyd** i geisio defnyddio profiad a gwybodaeth yr aelod o'r Cyngor, Eric Hepburn, i drafod sut y gellir profi gweithdrefnau o'r fath.

Gweithredu: GWJ

606

### Adroddiad Iechyd a Diogelwch

Ystyriwyd papur, ac amlygwyd bod Grŵp Tasg y Brifysgol ar Iechyd, Diogelwch a Rheoli Argyfyngau yn parhau i oruchwyllo agweddau beunyddiol ar weithredu deddfwriaeth ynglŷn â'r coronafirws yn y Brifysgol, gan drwy hynny ddiogelu staff, myfyrwyr a'r gymuned.

Darparwyd crynodeb o wybodaeth a data ynglŷn â Covid-19, a nodwyd:

- i. Mae'r gofyniad i gadw pellter cymdeithasol o 2m yn parhau mewn grym, heb unrhyw argoel pryd y bydd hyn yn newid.
- ii. **Gweithgarwch ar y Safle:** Ar yr amod y cedwir pellter cymdeithasol, gall gweithgarwch academiaidd ar y safle barhau heb unrhyw gyfyngiad o ran niferoedd mwyaf. Ar gyfer gweithgareddau nad ydynt yn academiaidd, gall y

Brifysgol bellach groesawu hyd at 30 o bobl y tu mewn a hyd at 50 o bobl yn yr awyr agored (gan gadw pellter cymdeithasol).

- iii. **Awyru:** Gwnaed gwaith helaeth yn 2020, yn enwedig i hwyluso ymarferion labordy ac addysgu yn y cnauld. Mae asesiadau ychwanegol bellach ar y gweill i alluogi cynnal mwy o weithgareddau a chefnogi staff a myfyrwyr i ddychwelyd i'r campws maes o law. Ar gyfer manau ac ystafelloedd problemus, mae'r Brifysgol yn cloriannu dewisiadau fel defnyddio hidlyddion HEPA a systemau puro germladdol UVC (Uwchfioled amrediad C).
- iv. **Gweithio o Bell:** Gweithio gartref yw dewis cyntaf o hyd yr holl staff nad oes raid iddynt weithio ar y safle. Mae'r sefyllfa a'r posibiladau ar gyfer gweithio gartref yn y dyfodol a'r rheolaethau angenrheidiol sy'n gysylltiedig â darparu amgylchedd gwaith diogel yn cael eu hystyried gan y Tasglu Adnoddau Dynol a'r Pecyn Cymorth Gweithio Deinamig, sy'n parhau i esblygu.
- v. **Teithio Rhyngwladol:** Mae teithio dramor yn parhau i fod yn broblemus ac wedi'i gyfyngu'n bennaf i leoliadau gwaith awdurdodedig/profiad rhyngwladol, ac i nifer fach iawn o fyfyrwyr Ymchwil Ôl-raddedig.
- vi. **Profion Covid:** Mae'r cyfleuster profi asymptomatig, sy'n defnyddio Dyfeisiau Llif Ochrol, yn cau ar 4 Mehefin, ac fe ddefnyddir pecynnau profi cartref yn lle o hynny ymlaen. Mae pecynnau prawf ar gael i staff a myfyrwyr o sawl man casglu ym Mangor a Wrecsam. Mae 'rhagdybiaeth gynllunio' y bydd angen profion Covid ar y safle ar ddechrau'r tymor, o bosibl er mwyn profi myfyrwyr wrth iddynt gyrraedd, ac i hwyluso profi sylweddol pe bai ton arall o'r haint.
- vii. **Asesiad Risg Covid-19 y Brifysgol:** Mae Asesiad Risg y Brifysgol ar gyfer rheoli a lliniaru'r risgiau o ran y coronafirws yn y gweithle yn ei 9fed fersiwn ar hyn o bryd ers dechrau blwyddyn academiaidd 2020/21. Caiff ei adolygu eto ar ôl cau'r Cyfleuster Profi Asymptomatig ar y safle.
- viii. **Cyfraddau Haint:** Ar hyn o bryd mae dau fyfyrwr y canfuwyd fod Covid arnynt; un yn yr Eidal, a'r llall yn Sawdi Arabia. Ni chanfuwyd fod Covid ar unrhyw fyfyrwr ym Mangor na Wrecsam ers rhai wythnosau. Rhwng 15 Medi 2020 a 28 Mai 2021 mae 386 adroddiad wedi ei gadarnhau o staff a myfyrwyr wedi eu heintio â Covid-19.  
  
Yn gyfan gwbl, mae profion asymptomatig wedi canfod dim ond 17 achos cadarnhaol ers eu cyflwyno ym mis Tachwedd 2020, o gyfanswm o dros 10,000 o brofion. Cyfradd positifrwydd o ddim ond 0.2%.
- ix. **Blwyddyn Academiaidd 21/22:** Ar hyn o bryd mae'n aneglur ac yn annhebygol o fod yn glir tan yn nes at ddechrau'r tymor pa weithgarwch yn y cnauld y gall y Brifysgol ei gynnal ar y campws a sut y bydd yn gweithredu. Bydd hyn yn gofyn i bawb lunio cynlluniau ar gyfer amryfal bosibiliadau.

607

### Adroddiad Ystâd y Brifysgol

Nodwyd yr eitemau allweddol canlynol:

- i. Mae gwaith yn parhau i fynd rhagddo i gyfuno ystod o wasanaethau o dan un ymbarél y Gwasanaethau Campws.

- ii. Mewn ymateb i lofruddiaeth Sarah Everard yn Llundain ym mis Mawrth 2021, cynhyrchwyd 'Papur Lle Diogel - Amgylchedd Diogel' er mwyn trafod swyddogaeth y Gwasanaethau Campws yn darparu lle diogel ac i dynnu sylw at ble y gellir gwneud gwelliannau. Er enghraifft: arolygu llwybrau cerdded, asesu lefelau goleuadau ymhellach, tocio coed ble bo angen, adolygu lleoliadau teledu cylch cyfyng a gwneud staff Gwasanaethau Campws yn fwy gweladwy ac yn hysbys fel man diogel i droi am gymorth.
- iii. Mae adolygiad wedi cychwyn i wella Parc y Coleg. Nod hyn yw gwella'r parc yn sylweddol ac yna annog staff, myfyrwyr, a'r gymuned ehangach i ddefnyddio'r parc fel cyrchfan ffyniannus, yn ogystal â llwybr cerdded diogel.
- iv. Mae gwaith sylweddol yn parhau er mwyn sicrhau cydymffurfio statudol ar draws ystod o feysydd cysylltiedig ag ystadau. Mae'r gwaith hwn yn parhau i fod yn anodd ond mae'r un mor hanfodol i weithrediad llyfn y Brifysgol.
- v. Mae datgomisiynu Ysbyty Enfys wedi cychwyn a rhagwelir y caiff Canolfan Chwaraeon sy'n llwyr weithredol ei 'dychwelyd' i'r Brifysgol cyn y flwyddyn academaidd nesaf.
- vi. Mae'r prosiectau canlynol yn weithredol ar hyn o bryd neu mewn camau paratoi mwy datblygedig:
  - Datblygu canolbwynt gweithgarwch i Undeb y Myfyrwyr yn adeilad Ffriddoedd.
  - Dymchwel Tŵr Alun Roberts i greu safle i'w datblygu neu i barcio ceir arni yn y dyfodol.
  - Datblygiad Canolfan Arloesi Deiniol / Gwyddoniaeth, a fydd yn cynnwys gwaith adnewyddu sylweddol a sawl adeilad newydd.
  - Creu mynedfa newydd atyniadol i'r Brifysgol yn adeilad Pontio. Bydd hyn yn cynnwys addasiadau i fynedfa bresenol Prif Adeilad y Celfyddydau ac adleoli'r gwasanaeth Diogelwch a gwasanaethau eraill sy'n ymdrin â myfyrwyr i Pontio.
  - Mae adolygiad ar y gweill o drefniadau awyru, yn enwedig mewn mannau cyfarfod llai a swyddfeydd a rennir.

608.

#### **Absenoldeb Salwch a Damweiniau - Adroddiad 9 Mis**

Nodwyd yr eitemau canlynol o'r adroddiad ystadegol 9-mis ar Ddamweiniau a Digwyddiadau ac Absenoldebau Salwch:

- i. Bu 19 o ddamweiniau lle cafwyd anafiadau, a digwyddodd 17 o'r rheini i staff a myfyrwyr.
- ii. Ni chafwyd unrhyw ddigwyddiadau RIDDOR adroddadwy (fel y diffinnir hynny gan y Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch) yn y cyfnod.
- iii. Collwyd 4,613 o ddiwrnodau gwaith oherwydd absenoldeb salwch yr adroddwyd yn ei gylch, cyfradd o ryw 1.35 diwrnod i bob aelod staff (cyfwerth ag amser

llawn) yn 9 mis cyntaf y flwyddyn. Roedd 539 o'r dyddiau hyn, a 49 achos, oherwydd symptomau yn ymwneud â Covid-19.

- iv. Ni chrybwyllwyd unrhyw ddigwyddiadau arwyddocaol yn ymwneud â'r Amgylchedd yn ystod y cyfnod hwn.

**609.**

**Unrhyw Fater Arall**

Nodwyd yr eitemau canlynol:

- i. Darparwyd gwybodaeth am Brotocol Cymru gyfan 'Addysg Uwch - adolygiad diwedd tymor yr haf' y cytunwyd arno rhwng Prifysgolion Cymru a'r Undebau Llafur.
- ii. Bellach mae angen i'r holl staff gwblhau'r Cynllun Cynefino Covid-19 ar-lein. Nodir y caiff hyn ei adolygu cyn blwyddyn academiaidd 21/22 a gofynnir am gefnogaeth yr uned Marchnata a Chyfathrebu i ffilmio a gwella'r hyfforddiant Cynefino.

**Trefnwyd cyfarfodydd nesaf y Pwyllgor Iechyd a Diogelwch (I'W CADARNHAU)  
fel a ganlyn:**

29 Hydref 2021, 10am

4 Mawrth 2022, 2pm, i'w gadarnhau

27 Mai 2022, 2pm, i'w gadarnhau